# Dychmygwch Hwn!
# Gweithgareddau Dilynol i Athrawon

Mae gweithgareddau dilynol Dychmygwch Hwn yn rhoi cyfle i ddisgyblion gyflawni deilliannau dysgu Cyfnod Allweddol 2 y Fframwaith ABCh ar gyfer disgyblion 7 i 19 oed yng Nghymru.

| **Gweithgareddau ychwanegol Dychmygwch hwn** | Mae'r gweithgareddau'n cynnwys yr agweddau canlynol ar y fframwaith llythrennedd | Mae'r gweithgareddau'n cynnwys yr agweddau canlynol ar y fframwaith rhifedd | **Cysylltiadau â'r Fframwaith ABCh ar gyfer disgyblion 7 i 19 oed yng Nghymru** | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Sgiliau** | **Ystod** |
| 1. Holiadur Cychwynnol | Ll(Ll)si<br><br>LL(Ll)g<br><br>Ll(Ll)c a th<br><br>Ll(D)y a d | Rh(DYRh)c a ch<br><br>Rh(DSD)c cd<br><br>Rh(DSD)cd d<br><br>Rh(DSD)dc | • Casglu gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys cronfeydd data neu holiaduron syml, er mwyn cefnogi'u dealltwriaeth o faterion yn ymwneud ag ABCh<br>• Cyfrannu at drafodaethau dosbarth a chymryd rhan mewn dadleuon | • Deall pwysigrwydd diogelwch personol |
| 2. Torri'r Codau | Ll(Ll)si<br><br>Ll(Ll)g<br><br>Ll(Ll)c a th<br><br>Ll(Y)ydd | | • Bod yn sensitif i brofiadau a theimladau pobl eraill<br>• Adnabod y cysylltiadau rhwng achos ac effaith | • Hybu hunan-barch a pharch at eraill<br>• Deall bod gweithredodd personol yn esgor ar ganlyniadau. |
| 3. Bwlio drwy Decstio a Bwlio Seiber | Ll(D)d a d<br><br>L(D)y a d | | • Defnyddio TGCh mewn modd diogel gyda chymorth ac arweiniad<br>• Dod o hyd i wybodaeth a syniadau a'u datblygu | • Deall bod gweithredoedd personol yn esgor ar ganlyniadau.<br>• Sefyllfaoedd sy'n esgor ar wrthdaro a natur bwlio |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4. Dwyn Ffonau Symudol | Ll(Ll)si<br><br>Ll(Ll)g<br><br>Ll(Ll)c a th | | • Bod yn sensitif i brofiadau a theimladau pobl eraill Adnabod y cysylltiadau rhwng achos ac effaith<br>• Mynegi eu safbwyntiau a'u syniadau yn hyderus gan ddefnyddio ystod o ddulliau priodol | • Deall pwysigrwydd diogelwch personol<br>• Bod yn onest ac yn deg a pharchu rheolau, y gyfraith ac awdurdod |
| 5. Gweithgarwch naw diemwnt | Ll( D )sd<br>Ll( D )d a d<br>Ll(Ll)c a th | Rh(DSRh)d ff rh b | • Mynegi eu safbwyntiau a'u syniadau yn hyderus gan ddefnyddio ystod o ddulliau priodol | • Deall pwysigrwydd diogelwch personol |
| 6. Gêm Fwrdd Ffoli ar Ffôn | Ll( D )sd<br>Ll( D )d a d<br>Ll(Ll)si<br>Ll(Ll)c a th<br>Ll(Ll)l | Rh(DSRh)d ff rh b<br><br>Rh(DSRh) cdsg ac y) | • Adnabod y cysylltiadau rhwng achos ac effaith | • Deall bod gweithredoedd personol yn esgor ar ganlyniadau.<br>• Hybu hunan-barch a pharch at bobl eraill<br>• Deall pwysigrwydd diogelwch personol |

**Sylwer**
Mae'r gweithgareddau ychwanegol yn Dychmygwch Hwn yn defnyddio'r adnoddau cyfoethog sydd ar gael ar lein. Felly, fe'ch cynghorir i drefnu bod gennych gysylltiad â'r Rhyngrwyd wrth drafod y gweithgareddau hyn. Mae rhai'n cyfeirio at wefannau penodol.

1. **Holiadur Cychwynnol**
   Gan ddefnyddio'r Powerpoint (adnodd 1.a) gwnewch arolwg yn y dosbarth ynglŷn â ffonau symudol. Gofynnwch y cwestiynau hyn i'r dosbarth.

- Faint sydd â ffôn symudol?
- Faint sydd â ffôn symudol sy'n gallu cysylltu â'r rhyngrwyd?
- Faint sy'n cael defnyddio ffôn symudol ffrind neu berthynas?
- Faint sy'n defnyddio ffôn symudol bob dydd?
- Faint sy'n defnyddio ffôn symudol i fynd ar y rhyngrwyd bob dydd?
- Faint sy'n ei ddefnyddio fel ffôn i siarad?
- Faint sy'n ei ddefnyddio i decstio?
- Faint sy'n ei ddefnyddio ar gyfer rhywbeth arall?

Crynhowch atebion y dosbarth ar y daflen crynhoi canlyniadau PowerPoint (sleid2) . Gallai'r athrawon ddefnyddio'r wybodaeth hon i fyfyrwyr greu amrywiaeth o graffiau i'w harddangos yn y dosbarth.

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o bedwar ac enwebu llefarydd; rhowch un ddalen o bapur siart droi a phin i bob grŵp. Gofynnwch i'r grŵp drafod y cwestiynau hyn (sleid 3):

- 1. Ar gyfer beth y byddwch chi'n defnyddio ffôn symudol?
- 2. Pam mae angen ffôn symudol arnoch chi?
- 3. Ydy ffonau symudol yn eich rhoi chi mewn perygl?
- 4. Sut fyddai pobl yn cyfathrebu â'i gilydd cyn dyfeisio ffonau symudol?

Dylai llefarydd pob grŵp roi adborth i'r dosbarth am eu hatebion. Crynhowch yr atebion ar y bwrdd o dan 3 phennawd:

1. Defnyddio ffonau symudol:

Cadw mewn cysylltiad â ffrindiau drwy wneud galwadau, tecstio
Tynnu lluniau,
mynd ar y Rhyngrwyd,
neges fideo,
anfon neu bostio lluniau/fideo,
chwarae gemau,
lawrlwytho apiau a cherddoriaeth,
cloc,
larwm,
cyfrifiannell
stopwatsh,
e-bost.

2. Angen
Cadw mewn cysylltiad â phobl
Rhoi gwybod i'ch rhieni lle rydych chi
Trefnu pethau gyda ffrindiau
Cael help mewn argyfwng

3. Perygl
Tynnu sylw – achosi perygl e.e. wrth groesi'r ffordd
Dwyn ar y stryd
Seiberfwlio
Lawrlwytho'n anghyfreithlon
Firysau a maleiswedd
Cynnwys sarhaus ar y rhyngrwyd
Cysylltu â phobl ar lein nad ydych chi'n eu hadnabod mewn bywyd go iawn
Derbyn delweddau amhriodol
Iechyd

**2. Torri'r codau**
Mae tecstio'n ffordd dda iawn o gadw mewn cysylltiad â'ch ffrindiau a'ch teulu. Yn Saesneg, mae iaith llaw-fer wedi datblygu ac mae rhai'n dechrau cael eu defnyddio yn Gymraeg hefyd. Bydd llawer o'r termau tecstio mwyaf cyffredin yn cael eu defnyddio bob dydd erbyn hyn. Gan ddefnyddio'r PowerPoint (adnodd 2.a) cyflwynwch gysyniad termau tecstio (sleid 2). Yna, rhannwch y set o gardiau (adnodd 2.b) sy'n cynnwys y termau tecstio a'r esboniadau cyfatebol. Rhowch un i bob disgybl a gofynnwch i aelodau'r dosbarth ddod o hyd i'w partner. Gallwch gyfeirio at yr atebion wedyn ar sleid 2.a.

**Acronymau**
Gofynnwch i'r disgyblion weithio mewn parau. Rhannwch daflen delweddau ffôn symudol (adnodd2c) i bob disgybl. Gofynnwch i hanner y dosbarth ysgrifennu neges gyfeillgar (disgybl A) ac i ddisgybl B lunio ymateb cyfeillgar. Gofynnwch i hanner arall y dosbarth lunio neges ac ymateb cas. Ysgrifennwch y neges ar daflen delwedd y ffôn symudol. Yn Adnodd 2d, mae rhestr gynhwysfawr o acronymau Saesneg i'r athro gyfeirio atynt.

Gofynnwch i un neu ddau bâr o bob grŵp ddarllen eu negeseuon ac i'r dosbarth drafod y canlynol:

Grŵp A
At ba bwrpas rydych chi wedi defnyddio'r ffôn?
Beth yw manteision hyn?
Sut oeddech chi'n teimlo ar ôl darllen y neges?

Grŵp B
At ba bwrpas rydych chi wedi defnyddio'r ffôn?
Pa broblemau y gallai hyn fod wedi'i achosi?
Sut oeddech chi'n teimlo ar ôl darllen y neges?
Beth allech chi ei wneud am hyn?

**3. Bwlio wrth decstio a seiberfwlio**

Mae'r athro'n esbonio mai seiberfwlio yw **pan fydd……**

**rhywun yn gwneud niwed i chi, yn eich bygwth neu'n eich dychryn yn rheolaidd drwy anfon negeseuon neu ddelweddau drwy ddefnyddio'r Rhyngrwyd, ffonau symudol neu ffurfiau eraill ar gyfathrebu digidol**.

(adnodd 3a sleid 1)

Gallai'r dosbarth wneud yr ymchwil canlynol fel dosbarth. Ewch i wefan thinuknow www.thinkuknow.co.uk Cliciwch ar yr adran 8-10. Cliciwch yn yr adran 'how to stay in control' wedyn cliciwch ar eicon y ffôn symudol i weld y cyngor pwysig am ddiogelwch. Yn olaf, cliciwch ar yr adran sy'n egluro sut mae riportio rhywbeth wrth ddefnyddio ffôn symudol. Defnyddiwch daflen waith (adnodd 3b ac adnodd 3a sleidiau 2 a 3) i ymchwilio i'r dudalen we.

1. Beth ddylech chi ei wneud os cewch chi neges gas?
2. Beth yw spam?
3. Pam na ddylech chi byth anfon llun at neb nad ydych chi'n ei adnabod yn y byd go iawn?
4. Pam na ddylech chi byth roi rhif eich ffôn symudol i neb nad ydych chi'n ei adnabod yn y byd go iawn?
5. Pam na ddylech chi byth gyfarfod mewn bywyd go iawn â rywun rydych chi wedi cyfarfod ag ef ar y Rhyngrwyd?
6. Beth ddylech chi ei wneud i riportio rhywbeth sydd wedi achosi gofid i chi?

Gwybodaeth i athrawon

Fe allwch chi gael negeseuon fel hyn gan bobl rydych chi'n eu hadnabod, a hefyd gan bobl nad ydych chi'n eu hadnabod.

Mae'n well peidio ag ymateb i neges gas ac os cewch chi neges sy'n achosi gofid i chi, dylech bob tro ddweud wrth oedolyn rydych chi'n ymddiried ynddo. Dylech gofio hefyd pan fyddwch chi'n anfon negeseuon, y dylech fod yn gyfrifol a pheidio ag anfon dim a allai achosi gofid i rywun arall.

Weithiau, bydd pobl yn anfon negeseuon sothach, rhyw fath o hysbysebion, i rifau ffonau symudol pobl. Yr enw ar y rhain yw negeseuon Spam. Yng Nghaffi'r We, mae gan Chloe ddwy neges ar ei ffôn symudol oddi wrth bobl nad yw hi'n eu hadnabod felly mae'n eu dileu nhw ac yn sôn wrth oedolyn. Fe ddylech chi wneud hyn hefyd os cewch chi decst gan rywun nad ydych chi'n ei adnabod.

- **Cofiwch – PEIDIWCH BYTH** ag ymateb i decst spam neu decst gan rywun nad ydych chi'n ei adnabod, oherwydd mae'n bosibl y bydd y sawl sydd wedi anfon y neges atoch chi'n dal i anfon rhagor o negeseuon atoch chi o hyd. Mae'n bosibl hefyd bod firysau ar y negeseuon hyn ac fe all hynny atal eich ffôn rhag gweithio.

- Pan fyddwch chi'n anfon llun at ffrind gan ddefnyddio'ch ffôn symudol, yr enw ar hyn yw Gwasanaeth Negeseua Amlgyfrwng (Multimedia Messaging Service neu MMS).
- **DDYLECH CHI BYTH ANFON NEGES LLUN AT NEB NAD YDYCH CHI'N EI ADNABOD YN Y BYD GO IAWN -** hyd yn oed os ydych chi wedi bod yn siarad â nhw ar lein a'ch bod chi'n meddwl eich bod yn eu hadnabod nhw. Dydych chi byth yn gwybod go iawn pwy yw pobl os nad ydych chi wedi'u cyfarfod nhw wyneb yn wyneb. Os bydd rhywun yn gofyn i chi anfon neges llun atyn nhw ac nad ydych chi'n gwybod pwy ydyn nhw, dylech chi ddweud wrth oedolyn rydych chi'n ymddiried ynddo.

- **PEIDIWCH BYTH Â RHOI RHIF EICH FFÔN SYMUDOL** i neb nad ydych chi'n ei adnabod yn y byd go iawn. Weithiau, bydd pobl yn dweud celwydd am bwy ydyn nhw er mwyn twyllo pobl i roi eu rhif ffôn a'u manylion personol iddyn nhw, er enghraifft enw'u hysgol a lle maen nhw'n byw. Cofiwch fod pobl nad ydych chi'n eu nabod yn y byd go iawn yn dal yn ddieithriaid. Os rhowch chi rif eich ffôn symudol i rywun, hyd yn oed i bobl rydych chi wedi'u cyfarfod ar y Rhyngrwyd, cofiwch nad ydych chi'n gwybod pwy ydyn nhw go iawn. Peidiwch byth â threfnu i gyfarfod â nhw oherwydd maen nhw'n ddieithriaid.

- **PEIDIWCH BYTH Â THREFNU I GYFARFOD** â rhywun nad ydych chi'n ei adnabod. Dylech chi gadw'r neges a dylech chi bob tro ddweud wrth oedolyn rydych chi'n ymddiried ynddo.

- **SONIWCH WRTH OEDOLYN RYDYCH CHI'N YMDDIRIED YNDDO** ar unwaith os ydych chi'n gofidio neu'n poeni am rywbeth sydd wedi digwydd ar lein.

- **Cofiwch GADW UNRHYW NEGESEUON sydd wedi achosi gofid i chi.** Bydd angen i chi eu dangos nhw i bwy bynnag y byddwch chi'n dweud wrthynt – byddan nhw'n gallu'ch helpu, a byddan nhw'n gallu rhoi cyngor da i chi am beth arall y gallwch chi ei wneud. Peidiwch byth â phoeni am fynd i drwbl – nid chi yw'r un sydd wedi gwneud rhywbeth o'i le.

    - **Fe allwch chi hefyd ffonio CHILDLINE AM DDIM AR 0800 1111.** Gallwch chi siarad â rhywun yn breifat ac ni fydd yr alwad i'w gweld ar eich bil ffôn..

    - **Fe allwch chi hefyd** sgwrsio ar lein â rywun ifanc ar www.cybermentors.org

Mae tecstio'n gallu bod yn beryglus, mae angen i ddisgyblion fod yn ymwybodol o hyn ac addasu eu hymddygiad er mwyn creu amgylchedd tecstio diogel. Mae'r safle hwn yn cynnig cyngor a gweithgareddau priodol sy'n rhoi canllawiau ar gyfer cadw'n ddiogel. Mae'r cyngor ynglŷn â bod yn ofalus wrth roi gwybodaeth breifat ar lein yn fwyfwy perthnasol i blant sy'n defnyddio ffonau symudol. Yn y Deyrnas Unedig, mae plant wedi cael negeseuon sarhaus ac yn rhoi rhif eu ffôn symudol i ddieithriaid. Mae ffonau symudol yn gallu cysylltu â'r Rhyngrwyd, felly, mae'n bwysig mynd i'r afael â hyn.

Fel gweithgarwch dilynol, gall yr athro gyfeirio'r disgyblion i ymweld â Chaffi'r We ar wefan ThinkUKnow, www.thinkuknow.co.uk Ewch i adran 8-10 y safle i fynd i Gaffi'r We a gweld beth mae Chloe yn penderfynu ei wneud ynglŷn â'r negeseuon y mae hi wedi'u cael.

Gellir gwneud rhagor o ymchwil i ddefnyddio ffonau symudol mewn modd diogel yn www.chatdanger.com/mobiles/safetyadvice.aspx ac ar gyfer ffonau sy'n tynnu lluniau: www.chatdanger.com/mobiles/picphones.aspx Ydy'r cyngor hwn yn gyngor da? Os felly, sut y gallech chi hyrwyddo hyn yn eich ysgol? (adnodd 3.a. sleid 4). Ar ôl i'r disgyblion wneud y gwaith ymchwil, gallech ofyn iddynt ddylunio taflen / poster i roi cyngor i bobl eraill am ddefnyddio'u ffôn symudol yn ddiogel e.e.

- Gall cyfarfod â rhywun rydych ond wedi cysylltu â nhw ar lein fod yn beryglus
- Parchwch breifatrwydd eich ffrindiau
- Peidiwch â rhoi rhif eich ffôn symudol i neb ar wahân i'r bobl rydych chi'n eu hadnabod eisoes ac yn ymddiried ynddyn nhw
- Dysgwch sut i flocio defnyddwyr eraill.
- Gofynnwch am ganiatâd eich ffrindiau cyn tynnu eu llun.
- Gofalwch am eich gilydd a meddyliwch yn ofalus am yr hyn y byddwch chi'n ei anfon at bobl eraill.
- Peidiwch byth ag ymateb i negeseuon oddi wrth bobl nad ydych chi'n eu hadnabod.
- Dyma'r prif gwmnïau ffonau symudol O2, Vodaphone, Orange, T-Mobile (adnodd 3.a sleid 6)
- Dyma'r rhifau ffôn i riportio bwlio dros y ffôn (adnodd 3.a sleid 6)
- O2 - 0870 5214000 , Vodaphone - 0870 0700191 , Orange - 07973 100450 , T-Mobile - 0845 4125000

Gall yr athro holi'r disgyblion am eu teimladau ynglŷn â'r datganiad hwn drwy gynnal sesiwn dosbarth cyfan: "Ydy tecstio'n ffordd ddiogel o anfon neges?"

## 4. Dwyn Ffonau Symudol

Trafodwch ddwyn ffonau symudol gyda'r dosbarth. Mae'n syfrdanol bod 15,000 o setiau ffôn i bob golwg yn cael eu dwyn bob mis yn y Deyrnas Unedig yn unig. Dwyn ffonau symudol yw un rhan o dair o'r holl droseddau sy'n digwydd ar strydoedd Prydain ac mae ar gynnydd. Esboniwch bwysigrwydd y rhif IMEI. Dylai pawb gofnodi ei rif IMEI er mwyn iddyn nhw allu rhoi manylion eu ffôn os caiff ei ddwyn os aiff ar goll. Drwy wasgu'r botymau * # 0 6 # ar y ffôn, bydd yr IMEI yn ymddangos yn electronig ar y sgrin. Hefyd, dylai'r rhif IMEI fod ar sticer gwybodaeth, sydd fel rheol ar gefn y ffôn ac o dan y batri..

Ffordd arall o warchod eich ffôn yw cofrestru gydag Immobilise. Anogwch y disgyblion i gofrestru eu ffonau ar wefan Immobilise.

**Gwybodaeth am Immobilise**

**Pam y dylech chi gofrestru ffôn symudol gydag Immobilise?** Cronfa ddata y gellir chwilio drwyddi yw Immobilise sy'n cynnwys manylion miliynau o ffonau symudol ac eiddo o fathau eraill. Mae cofrestru eich ffôn yn broses syml iawn ac am ddim.

**Beth fydd ei angen arnoch chi i gofrestru?** Bydd angen i chi gael rhif IMEI eich ffôn, enw'r math o ffôn a rhif y model (Mae'n hanfodol cael y rhain a fyddwch chi ddim yn gallu cofrestru hebddyn nhw).

**Sut mae cael gafael ar rif IMEI fy ffôn?** *#06# seren hash sero chwech hash. Fe all y cwmni sy'n darparu'ch gwasanaeth roi'r IMEI i chi hefyd.

**Beth sy'n digwydd ar ôl imi gofrestru fy ffôn?** Os digwydd i'ch ffôn gael ei ddwyn neu fynd ar goll fe all yr Heddlu gael gwybod yn gyflym iawn pwy yw'r perchennog iawn ac mae llawer mwy o gyfle i chi gael eich ffôn yn ôl.

Ymgyrch bartneriaeth yw hon sy'n cynnwys yr Heddlu, y Llywodraeth a'r Diwydiant Telathrebu. Ei nod yw lleihau troseddu ar y strydoedd a nifer y ffonau symudol sy'n cael eu dwyn yn ystod troseddau ar y stryd drwy annog pobl i riportio bod eu ffôn wedi'i ddwyn neu ar goll i'w darparwr rhwydwaith

**Alla'i ddangos bod fy ffôn wedi'i ddwyn?**

Un o nodweddion gwych Immobilise yw bod perchennog y ffôn yn gallu cofnodi ar unwaith bod eu ffôn wedi'i ddwyn neu ar goll. Wedi dweud hynny, mae'n dal yn hollbwysig sôn wrth yr heddlu.

Gwybodaeth i'r Athro
Yna, fe allai'r dosbarth wneud cwis diogelwch ffonau symudol (anelir hwn at blant o allu CA3) yn.
http://news.bbc.co.uk/cbbcnews/hi/newsid_4160000/newsid_4161100/4161161.stm
Cliciwch ar past stories mobile phone safety ac atebwch y cwis.

Ar ôl trafod yr wybodaeth uchod, rhannwch y dosbarth yn bedwar grŵp. Bwriad yr ymarfer nesaf hwn yw trafod canlyniadau bod yn berchen ar ffôn symudol a dwyn ffonau. Rhowch gerdyn cymeriad i bob grŵp.

(4.a) Gofynnwch i bob grŵp ethol llefarydd a thrafod y cymeriad a roddwyd iddyn nhw, gan ddefnyddio'r cwestiynau sbarduno a ddarparwyd

(4.b)

Trafodwch ddigwyddiadau'r stori.

- Disgrifiwch deimladau eich cymeriad.
- Ydych chi'n meddwl bod trosedd wedi'i gyflawni?
- Sut y gallai'ch cymeriad fod wedi ymddwyn yn wahanol?
- Beth allai'r canlyniadau fod i'ch cymeriad?
- Pa gyngor fyddech chi'n ei roi i'ch cymeriad?
- Beth fydd yn digwydd nesaf, tybed?

Dewch â'r dosbarth yn ôl i ffurfio cylch ar gyfer gweithgarwch cylch y Gadair Boeth. Bydd y llefarwyr yn chwarae rôl y cymeriad a drafodwyd yn eu grŵp. Fe all yr Athro ddefnyddio arf siarad i hwyluso'r amser holi gyda'r cymeriadau.

**5. Naw Diemwnt –Y cyngor pwysicaf i chi weithredu arno!**


Mae'r gweithgarwch hwn yn sôn am rai o'r pethau sy'n gallu mynd o'u lle pan fyddwch chi'n defnyddio ffôn symudol a beth y gallwch chi wneud ynghylch hynny. Gofynnwch i'r disgyblion ddweud wrthych chi am y pethau y maen nhw'n meddwl sy'n gallu mynd o'u lle wrth ddefnyddio ffôn camera sy'n gallu cysylltu â'r Rhyngrwyd a beth yn eu barn nhw y gallan nhw'i wneud ynglŷn â hynny

Awgrymiadau ar gyfer beth all fynd o'i le:

- Rydych chi'n anfon, yn derbyn neu'n postio lluniau amhriodol
- Mae rhywun yn anfon tecst cas atoch chi
- Mae rhywun yn smalio mai chi ydyn nhw ar eich ffôn ac yn achosi gofid i bobl eraill, e.e. Rydych chi'n gadael eich cyfrif Facebook ar agor ac mae rhywun yn dweud rhywbeth sy'n achosi embaras gan esgus mai chi ydyn nhw
- Mae rhywun yn tynnu llun o rywun arall sy'n achosi embaras ac yn ei rannu ar lein
- Rydych chi'n postio llun ohonoch chi sy'n cynnwys manylion y lleoliad o'i fewn ac mae rhywun nad ydych chi'n ei adnabod mewn bywyd go iawn ond sydd ar eich rhestr ffrindiau'n dweud eu bod nhw'n hoffi'ch tŷ ac am alw heibio.

Gwnewch lungopïau o ddigon o setiau o'r cardiau Naw Diemwnt (adnodd5) er mwyn i bob pâr neu grŵp bach gael set. Gan weithio mewn parau neu grwpiau bach, gofynnwch i'r disgyblion drefnu eu pecyn o ymadroddion

naw diemwnt yn ôl y pethau y maen nhw'n meddwl sy'n flaenoriaeth ar gyfer gweithredu. Rhowch 5 munud i'r disgyblion eu trefnu. Gofynnwch i'r parau / grwpiau gynnig y flaenoriaeth uchaf iddyn nhw a dweud pam.



Datganiadau 9 deiamwnt i'w trefnu

- Dim ond ffrindiau go iawn ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol
- Diffodd geotagio ar fy ffôn
- Cadw neges destun gas yn dystiolaeth
- Peidio â thynnu na lanlwytho llun heb ganiatâd
- Sicrhau nad yw fy negeseuon testun yn niweidio nac yn gofidio neb
- Dweud wrth rywun os oes rhywbeth wedi mynd o'i le
- Allgofnodi bob tro o safleoedd rhwydweithio cymdeithasol
- Bod yn ofalus i bwy rwy'n rhoi benthyg fy ffôn

### 6. Gêm Ffoli ar y Ffôn

Llungopïwch ddigon o daflenni'r gêm fwrdd Ffoli ar y Ffôn (adnodd 6a) er mwyn i bob dau ddisgybl gael un i'w rhannu. Bydd angen pecyn o gardiau Ffoli ar y Ffôn hefyd (Adnodd 6a) ar bob pâr, dis a 2 fotwm plastig. Mae'r gêm yn help i'r disgyblion ystyried y peryglon eto a chanlyniadau cadarnhaol/negyddol defnyddio/camddefnyddio ffonau symudol.

I chwarae, gofynnwch i'r disgyblion wneud hyn:

- Gosod y bwrdd gyda dwy set o luniau ffôn mewn dau bentwr yn ôl eu lliw (sgriniau melyn a glas)
- Taflu'r dis - y chwaraewr sy'n taflu'r rhif uchaf sy'n dechrau gyntaf
- Symud y botwm un sgwâr ar gyfer pob rhif a deflir. Os bydd chwaraewr yn glanio ar lun ffôn, rhaid iddo/iddi godi cerdyn o'r pentwr cywir, ei ddarllen yn uchel a dilyn y cyfarwyddyd.
- Taflu'r dis yn eu tro a cheisio cyrraedd pen draw'r bwrdd. Y chwaraewr sy'n cyrraedd y pen draw gyntaf yw'r enillydd.

